

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Ionawr 14eg 2014 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Geraint Davies, Gwynedd Jones, Geraint Jones, Euros Puw, Arwel Davies, Gwynfryn Williams a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Davies, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Datganodd Geraint Davies ac Euros Puw eu buddiant yn eitem Cynllunio (c)

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Parcio dros nos yn y cilfanau ar y A494, ger Llanycil.

Cadarnhaodd y clerc bod yr Adran Cefnffyrdd wedi derbyn llythyr y Cyngor Cymuned ac am gymryd y camau priodol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

i) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu'r diwrnod agored yn Yr Henblas ar y 23/1/14 am 3y.p. neu 7y.h. Gofynnwyd i'r cynghorwyr gysylltu yn uniongyrchol a'r Bartneriaeth os yr oeddynt am fynychu'r digwyddiad.

b) Cyngor Gwynedd

i) Yn dilyn y ffurflen datgan diddordeb yn y Gronfa Gwefan roedd y clerc wedi derbyn ffurflen cais ar gyfer y cynllun. Yn dilyn trafodaeth gyda'r cynghorau Cymuned a Thref leol eraill, roedd y ffurflen wedi cael ei chwblhau ac roedd amcan bris yn cael ei baratoi ar gyfer y wefan newydd.

ii) Derbyniwyd dogfennau gwybodaeth am y Cod Ymddygiad, Ffurflenni Datganiad Buddiant Personol ayyb a holiadur byr i'r Cyngor Cymuned gwblhau.

c) Un Llais Cymru.

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 15/1/14.

ii) Derbyniwyd gwahoddiad i arddwest Palas Buckingham a gynhelir ym mis Mai a Mehefin.

ch) Cymdeithas Tai Clwyd.

i) Derbyniwyd gwahoddiad i'r diwrnod agored yn Awel y Coleg, 15/1/14.

d) Cyngor Tref Y Bala.

i) Derbyniwyd e-bost yn holi'r Cyngor os oedd ganddynt ddiddordeb mewn cyd-weithio ar gynnal cwrs hyfforddi Cyllid. Cytunwyd mewn egwyddor i gyd-weithio gyda'r cynghorau lleol eraill.

Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/72B – Gosod ffenestri to. Dol Hir, Frongoch.

NP5/72/53D – Codi adeilad amaethyddol, gweithdy a storfa. Rhyd Lechog, Frongoch.

NP5/72/LB143C – Newidiadau i'r hawl cynllunio blaenorol. Eglwys Beuno Sant, Llanycil

Cytunwyd i gefnogi'r ceisiadau.

b) Derbyniwyd cadarnhad bod y cais canlynol wedi cael ei ganiatáu:-
NP5/72/227 - Cynllun trydan ddŵr. Llyn Arenig Fach.

c) Yr Arolygiaeth Gynllunio.

Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori o'r apeliadau a dderbyniwyd ynglŷn â'r bwriad i fapio tir fel Tir Comin Cofrestredig neu Dir Agored. Gan fod tir yn ardal yr Arennig wedi ei nodi cytunwyd i ymateb i'r llythyr gan gefnogi apelion y tirlfeddianwyr.

Materion Ariannol.

a) Cyllideb a Praesept 2014-15.

Cafwyd braslun o'r gyllideb ar gyfer 2014-15 gan y clerc, a chafwyd yn gywir. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gadw'r Praesept ar £3,300 ar gyfer 2014-15.

b) Cytunwyd i dalu cyflog y clerc (Hyd - Rhag)

c) Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Llangollen a Dawns i Bawb. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Medi.

Materion lleol.

a) Llifogydd ym mhentref Parc.

Derbyniwyd llythyr gan drigolion y pentref yn mynegi eu pryder am effaith y llifogydd diweddar ar ddiogelwch rhai o gartrefi'r pentref. Roedd nant gerllaw mewn peryg o orlifo ac roedd nifer o'r cwteri wedi tagu a'r dŵr yn rhedeg ar hyd wyneb y ffordd. Cytunwyd yn unfrydol i anfon y llythyr ymlaen i Gyngor Gwynedd i sicrhau bod y materion yn cael sylw cyn gynted â phosib.

b) Bocs halen ger Ffridd Isaf, Maesywaen.

Derbyniwyd cais am focs halen ger Ffridd Isaf gan fod y dŵr a oedd yn casglu ar y ffordd yno yn rhewi ac yn gwneud y ffordd yn llithrig iawn. Gofynnwyd i'r clerc basio'r cais ymlaen i Gyngor Gwynedd.